**Datganiad Strategaeth y Grant Datblygu Disgyblion**

O 2022-2023 ymlaen, bydd angen i ysgolion gwblhau a chyhoeddi datganiad ar eu strategaeth Grant Datblygu Disgyblion (GDD). Gellir gweld hyn isod.

## DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION

*Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd **2026 i 2027.***

*Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.*

***Trosolwg Ysgol***

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Llanhari |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 647 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 6.1% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | Ebrill 2026 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Mawrth 2027 |

| | |
|---|---|
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Meinir Thomas |
| Yn arwain ar y GDD | Meinir Thomas / Elen George |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Mrs Helen Sharkey |

**Trosolwg Cyllid**

| **Manylion** | **Swm** |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £44,400 |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £44,400 |

**Rhan A: Cynllun Strategaeth**

***Datganiad o Fwriad***

*Ein nod yn Ysgol Llanhari yw lleihau'r rhwystrau sy'n wynebu disgyblion o gefndiroedd llai breintiedig. Cynigiwn gefnogaeth a darpariaeth sy'n eu cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial. Gwnawn hyn yng nghyd-destun gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru yng Nghenhadaeth ein Cenedl o safonau a dyheadau uchel i bawb.*

*Mae'n cynllun strategol yn canolbwyntio ar agweddau penodol a fydd yn gweithio tuag at wireddu'r amcan o leihau rhwystrau e.e. sicrhau darpariaeth  dysgu ac addysgu o ansawdd uchel i bob disgybl, mynediad at weithgareddau cyfoethogi i ddisgyblion prydau ysgol am ddim, cynnig cymorth a mentora personol i ddiwallu anghenion emosiynol disgyblion bregus yn unol â'r Fframwaith ar gyfer iechyd a lles emosiynol a chymdeithasol.*

| |
|---|
| *Mae prif egwyddorion y cynllun strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau tegwch i ddisgyblion bregus, Bwriedir mynd ati mewn ffordd gadarn i adnabod angen mewn perthynas â disgyblion difreintiedig, eu hamgylchiadau, cyflawniad a chynnydd a chynllunio ymyraethau a fydd yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd a chyflawni potensial.* |

***Canlyniadau a fwriedir***

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| **Canlyniad a fwriedir** | **Meini prawf llwyddiant** |
|---|---|
| Canolbwyntio ar wella presenoldeb dysgwyr bregus gan gynnwys disgyblion PYD trwy weithredu strategaethau penodol ar y cyd â system dracio presenoldeb arferol yr ysgol | Targed o 87% presenoldeb disgyblion PYD wedi ei gyrraedd |
| Tracio agwedd at ddysgu a chynnydd disgyblion PYD ar draws yr ysgol yn amlygu bod y disgyblion yn cyflawni potensial. Sefydlu grwpiau tangyflawnwyr o blith y garfan PYD ymhob blwyddyn uwchradd / adran gynradd | Taflenni tracio agwedd at ddysgu a chynnydd mewnol (yn unol â gofynion CiG) yn amlygu bod y disgyblion yn cyflawni potensial. Monitro gan Arweinwyr Cynnydd yn ffocysu ar hyn<br>Data arholiadau allanol yn dangos bod disgyblion PYD yn cyflawni potensial. |
| Datblygu ar y gwaith perthnasau trwy gyflwyno sgriptio, un o'r arferion da Dysgu ac Addysgu y manylir arno yn llyfr Paul Dix *When the adults change* | Arsylwadau gwersi a llais y disgybl yn cadarnhau bod yr egwyddorion dysgu ac addysgu yma ar waith yn yr ysgol ac yn cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl. Mwy o amrywiaeth yn y strategaethau a ddefnyddir yn amlwg wedi'r cyfnod o rannu arfer dda. |

| | |
|---|---|
| Disgyblion PYD â mynediad i'r holl ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol, heb fod tlodi yn rwystr i ddysgu na chyfranogiad.. | Dadansoddiad o gyfranogiad disgyblion PYD mewn gweithgareddau yn cadarnhau bod hyn yn digwydd fel mater o arfer yn yr ysgol |
| Mireinio ein strategaethau i fynd i'r afael â threchu tlodi, yn unol â'r flaenoriaeth genedlaethol | Ymgyrchoedd wedi digwydd yn gyson yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod profiad y disgyblion llai breintiedig yn ariannol o ysgol, yn un mwy cadarnhaol. Bydd monitro trwy lais y disgybl yn allweddol yn hyn. |
| Sicrhau bod cefnogaeth staff arbenigol ar gael i bob disgybl gan gynnwys disgyblion bregus. | Cefnogaeth arbenigol yn golygu bod disgyblion bregus yn ffynnu yng nghymuned yr ysgol gyda gwelliant o ran presenoldeb, personoli y dysgu a thystiolaeth o agwedd dda at ddysgu yn arwain at gynnydd academaidd |

**Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

1. Cyfraniad at gyflog swydd gweinyddol Presenoldeb

2. Amser di-gyswllt i athrawon i barhau â'r gwaith meithrin perthnasau, yn seiliedig ar egwyddorion *When the adults change,* rhannu arfer dda a monitro effaith yr hyfforddiant

3. Neilltuo swm penodol o gyllid i gyfrannu at weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol

| |
|---|
| 4. Ymgyrchoedd trechu tlodi yn digwydd yn gyson ar hyn o flwyddyn.<br><br>5. Cyfraniad at gyflog y swyddog llesiant ysgol gyfan |

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £1000

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Staff dysgu i wneud ymchwil weithredol ar argymhellion *When the adults change* a rhaeadru i staff eraill | Yn dilyn cyfnod o rannu arfer ddau trwy weithio o fewn triawdau, fe fydd banc o adnoddau / strategaethau llwyddiannus ar gael i'r staff cyfan i'w defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb ar draws. |

**Ysgolion Cymunedol**

Cost wedi'i chyllidebu: £ 22,000

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cyfraniad at gyflog swyddog llesiant yr ysgol. Rhan hanfodol o'i gwaith yw gweithio â rhieni ac asiantaethau fel *Resilient Families* sy'n cefnogi'r disgyblion. | Wrth gyflogi swyddog llesiant, ceir cyfle i fonitro cynnydd a lles emosiynol y disgyblion yn rheolaidd. |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £21,400

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Yn dilyn y galw yn ystod blynyddoedd blaenorol, parhau i benodi swm ar gyfer cyfraniad at adnoddau offerynnol TG/ dysgu digidol,Gwersi offerynnol/clybiau/ymweliadau addysgol i'r disgyblion hynny sy'n wynebu rhwystrau ariannol, Ni fydd cost yn rhwystr i unrhyw ddisgybl sydd am anelu'n uchel (£8000) | Disgyblion bregus yn cael cyfle cyfartal i ddarpariaeth sydd ar gael i bob disgybl. |
| Mireinio strategaethau mynd i'r afael â thlodi trwy hybu agweddau megis adnoddau mislif am ddim, siop cyfnewid gwisg ysgol, cynllun adnoddau hylendid ayyb (£1400) | Llais y disgybl yn nodi bod cymorth ar gael heb fod hynny yn cael ei amlygu i eraill bob tro. |
| Cyfraniad at gyflog swyddog presenoldeb er mwyn sicrhau prosesau cadarn i fonitro a gwella presenoldeb disgyblion PYD er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial. Cydweithio ag asiantaethau a theuluoedd.(£12,000) | Monitro agosach yn cynnig cyfle i wella canran presenoldeb disgyblion PYD.a grŵp targed disgyblion bregus. |

**Cyfanswm cost y ceisiadau: £ 44,400**

**Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol**

***Canlyniadau'r GDD***

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2025 i 2026.

***Rhaglenni a ddarperir yn allanol***

*Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru. –* ***hyfforddiant mewnol yn unig yn ystod 2025-26***

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| | |

**Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)** – *gwerthusiad Cynllun GDD 2025-26*

Mae agweddau o’r GDD yn ffurfio rhan o gynllun gwella’r ysgol.

Mae’r bwlch rhwng presenoldeb disgyblion PYD yr ysgol a’r disgyblion eraill wedi gweld cynnydd pellach eleni. Presenoldeb yr ysgol oedd 93.8%, disgyblion PYD yn 86.1% a’r rhai nad ydynt yn PYD yn 94.3%. Mae hyn yn golygu bwlch o 8.2% rhwng presenoldeb disgyblion PYD a disgyblion nad ydynt yn PYD, o gymharu â bwlch o 7% yn 2024-25 a 6% yn 2023-24. Dylid nodi bod nifer y disgyblion PYD yn gymharol fach o fewn yr ysgol, ac felly mae presenoldeb isel nifer fach o ddisgyblion yn cael effaith anghymesur ar y ffigurau cyffredinol. O’r 11 atgyfeiriad presenoldeb sydd gan yr ysgol ar hyn o bryd, mae 5 yn ymwneud â disgyblion PYD. Er gwaethaf cydweithio agos gydag asiantaethau allanol, teuluoedd a Swyddog Lles Addysg RhCT, nid yw’r gwelliant a ragwelwyd wedi’i wireddu eto. Fodd bynnag, mae darpariaeth amgen yr ysgol wedi cefnogi rhai disgyblion PYD i gynyddu eu hymgysylltiad ag addysg ac wedi cyfrannu at welliannau mewn presenoldeb mewn rhai achosion. Bydd gwella presenoldeb disgyblion PYD yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ystod 2026-27, ac mae angen parhau i ariannu’r swyddog gweinyddol presenoldeb drwy’r Grant Datblygu Disgyblion er mwyn sicrhau monitro cadarn ac ymyraethau addas.

Ceir tystiolaeth o fewn arsylwadau gwersi a theithiau dysgu bod agwedd at ddysgu y disgyblion yn gadarnhaol ac felly mae gwreiddio y polisi ymddygiad cadarnhaol a mabwysiadu egwyddorion *When the Adults Change (Paul Dix)* wedi cael effaith gadarnhaol ar yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion bregus a disgyblion PYD. O’r cyfanswm o waharddiadau allanol eleni dim ond 3 diwrnod allan o’r cyfanswm o 37 diwrnod sydd yn ddisgyblion PYD (tri disgybl). Dengys canlyniadau Haf 2025 bod 100% o’r disgyblion PYD wedi llwyddo i gael 5A*-G a bod 33.3% (1 disgybl) ohonynt wedi cael 5A*-

C. Wrth dracio cynnydd eleni ar gyfer arholiadau TGAU Haf 2026 gwelir bod 100% o ddisgyblion PYD ar darged i gael 5A*-G, a 50% ar darged i gael 5A*-C.

Mae arsylwadau gwersi a gweithgareddau llais y disgybl yn cadarnhau bod egwyddorion dysgu ac addysgu'r ysgol yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol ac yn darparu cyfleoedd cyfartal i bob disgybl lwyddo. Mae adborth gan ddisgyblion yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol yn eu dysgu, bod disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar eu cyfer, a'u bod yn gwerthfawrogi'r ystod o weithgareddau a dulliau addysgu a ddefnyddir yn y dosbarth.

Mae tracio rheolaidd agwedd at ddysgu a chynnydd disgyblion PYD ar draws yr ysgol wedi galluogi staff i fonitro perfformiad y garfan yn agos a sicrhau bod ymyriadau priodol yn cael eu rhoi ar waith lle bo angen. Defnyddiwyd taflenni tracio cynnydd mewnol ac agwedd at ddysgu, yn unol â gofynion CiG, i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhlith disgyblion PYD. Sefydlwyd grwpiau tangyflawnwyr o fewn pob blwyddyn, gan alluogi Arweinwyr Cynnydd i ganolbwyntio cymorth a monitro ar y disgyblion hynny oedd fwyaf mewn perygl o dangyflawni. Mae'r prosesau tracio a monitro hyn wedi sicrhau bod anghenion disgyblion PYD yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod cymorth wedi'i dargedu yn cael ei ddarparu er mwyn hyrwyddo cynnydd a chyrhaeddiad.

Er mwyn lleihau effaith tlodi ar ddisgyblion, mae nifer o ddisgyblion wedi elwa o’r ffaith bod y grant GDD yn ariannu cyrsiau preswyl penodol e.e. cwrs anwytho bl7, Llangrannog a Glanllyn. Ym mis Medi 2025, am yr ail flwyddyn yn olynol mynychodd 100% o ddisgyblion blwyddyn 7 y cwrs anwytho. Er mwyn annog cyfranogiad, nodir ar bob llythyr gweithgaredd sydd â chost ynghlwm, bod cynnig i rieni gysylltu â’r ysgol os yn deilwng o brydau ysgol am ddim. Mae hyn wedi arwain at nifer o ddisgyblion PYD yn derbyn profiadau addysgol e.e. taith Celf TGAU i Lundain.

Defnyddiwyd y cyllid i sicrhau nad oedd rhwystrau ariannol yn atal disgyblion PYD a disgyblion bregus rhag manteisio ar gyfleoedd addysgol a chyfoethogi a gynigir gan yr ysgol. Darparwyd cymorth tuag at adnoddau TG a dysgu digidol, gwersi offerynnol, clybiau ac ymweliadau addysgol, gan sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol ochr yn ochr â'u cyfoedion. O ganlyniad, mae nifer o ddisgyblion PYD wedi derbyn gwersi offerynnol am ddim, gan ddatblygu eu sgiliau cerddorol, eu hyder a'u hymgysylltiad â gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r gefnogaeth wedi sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion bregus gael mynediad at ddarpariaeth a phrofiadau a allai fel arall fod y tu hwnt i'w cyrraedd oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae adborth gan ddisgyblion a theuluoedd yn dangos bod y cymorth hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar les ac ymdeimlad o berthyn o fewn cymuned yr ysgol.

Mae rhai ymgyrchoedd trechu tlodi wedi parhau eleni gyda chymorth aelodau o’r chweched dosbarth a Ffrindiau Llanhari yn gwirfoddoli i roi cymorth. Mae stondin gwisg ysgol ail law sefydlog gennym erbyn hyn sy’n ei gwneud hi’n haws dosbarthu gwisg i ddisgyblion pan fo angen. Bydd yr ysgol yn parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael, yn monitro'r defnydd a wneir ohoni, ac yn ystyried ffyrdd ychwanegol o gefnogi teuluoedd sy'n wynebu anawsterau ariannol. Bydd datblygu a chryfhau'r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae swyddog llesiant yr ysgol yn parhau i weithio gyda theuluoedd bregus gan gynnwys disgyblion PYD. Mae ei gwaith yn sicrhau bod disgyblion yn mynychu’r ysgol ac yn elwa o gefnogaeth ar gyfer lles meddyliol ac emosiynol yn unol â gofynion y Fframwaith. Mae’n rhan allweddol o ymateb graddedig yr ysgol ac mae’n gwneud gwaith amhrisiadwy yn gweithio gyda disgyblion â’u teuluoedd. Mae tystiolaeth o’r gwasanaeth y mae’n ei gynnig a’i effaith yn ffurfio rhan o werthusiadau tymhorol y tîm lles. Mae ein data llais y dysgwr yn dangos yn glir bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn gwybod at bwy i droi os oes pryder ac yn trafod yn gadarnhaol am systemau effeithiol yr ysgol er mwyn eu cefnogi.